

Mae Duw yn byw gyda ni

Oed:
5-7

Stori o'r Beibl
Ioan 1:4-5

Neges y stori
Bydd Iesu'n goleuo'r ffordd i ni

Gweithgaredd

Iesu – goleuni gobaith

Gwnewch oleudai i gofio mai Iesu ydi'r goleuni sy'n disgleirio yn y tywyllwch.

• Bydd angen


Tiwbiau cardbord, cardbord ychwanegol, papur gwyn, riwleri, tâp trydan du, glynion bach melyn, pinnau ffelt coch, glud, top dwy botel blastig fawr ar gyfer bob plentyn.

• Paratoi

Defnyddiwch diwb fel canllaw i amlinellu a thorri un cylch cardbord, tua 2cm yn fwy na'r tiwb, i bob plentyn. Torrwch bapur gwyn yn ddarnau 11cm x 15cm (un i bob plentyn). Gosodwch un tiwb cardbord, un darn o gardbord, top dwy botel ac un ddalen o bapur gwyn i bob plentyn. Yna gosodwch weddill y deunyddiau er mwyn i'r plant eu rhannu.

• Cam-wrth-gam

1. Gludwch y cylch cardbord i ben y tiwb a gludwch y papur gwyn o amgylch y tiwb.
2. Rhwch dopiau dwy botel at ei gilydd gyda tâp du, yna'u gludo i ben y tiwb. Torrwch sgwariau bach o'r glynion melyn a'u gludo i'r topiau poteli i greu effaith ffenestri bychain.
3. Lliwiwch streipiau coch ar y goleudy gyda phin ffelt.



Neges y wers

Wedi i'r plant orffen eu goleudai, gwahoddwch nhw i ymuno â chi. Yna gofynnwch:

- Sut mae goleudai yn helpu pobl ar y môr?
- Sut all goleuni Iesu ein helpu?
- Ar gyfer pwy y mae golau Iesu yn disgleirio?

Eglurwch fod goleudai yn gymorth mawr i helpu'r rhai sydd ar goll ar y môr i ganfod eu ffordd gartref. Mae Iesu fel goleudy i ninnau, oherwydd ei fod yn rhoi goleuni gobaith sy'n ein helpu trwy fywyd. Pan rydyn ni'n teimlo ar goll, yn ddryslyd neu'n unig, y cyfan sydd angen i ni ei wneud ydi darllen y Beibl a gofyn i Iesu ddangos i ni beth i'w wneud nesa.